

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Orffennaf 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Jim Boughton , Terry Bullock, Karen Pugh, Gareth Parry, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau, , Meirion Owen, Janet Charlton, Marion Bettenev, Sian Godbert, Cyng Sir Elisabeth Roberts, SCHG Dean Cavey.
Datgan diddordeb, Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd a Gwawr Jones yn Is Gadeirydd y Cyngor
Cofnodion –Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fehefin 2015.

(1)Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd SCHG Dean Cavey yn medru bod yn bresennol ond ei fod wedi cadarnhau bod y Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus ar gyfer Pont-y-Pair a manau cyfagos yn barod i'w weithredu. Penderfynwyd anfon llythyr o werthfawrogiad i'r SCHG yn diolch iddo am ei ymdrechion ac yn amlinellu y dylai gorfodi'r gorchymyn ar unwaith er mwyn ei wneud yn effeithiol.

(1.1) Cais i gynnal Pont Droed Gorsaf Drên Betws-y-coed

Nodwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts yn parhau ymlaen gyda'r mater.

[1.2] Canghenni Coed Eiddew/Llwybr o Ffordd yr Orsaf i Stablau'r Royal Oak

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Materion Priffyrdd/Llinellau Dwbl Melyn

Priffordd yr A5 ger Glenwood.- Y clerc i gysylltu gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyngori nad oedd y Cyngor Cymuned yn ymwybodol o wrthwynebiad i'r llinellau

[1.4]Lleoliad i'r Defilibrator

Gan nodi nad oedd ymateb wedi ei dderbyn oddiwrth garej Shell, penderfynwyd ystyried y tri lleoliad canlynol, Porth yr Eglwys, Yr Orsaf Dan. a'r Feddygfa. Y clerc i gysylltu gyda'r feddygfa yn y lle cyntaf.

[1.5] Creu Man Chwarae yng Nghae Llan

Dywedodd y clerc bod y Cyng Elisabeth Roberts yn gwneud ymholiadau ynglŷn â chyllid ar gyfer y fenter.

[1.6] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd ei fod mewn cysylltiad â'r hanesydd lleol Mr Glyn Jones ynglŷn â'r mater.

Y brif agenda

[1.7] Materion Cynllunio

[a] Estyniad i lety'r perchennog i ddarparu ystafelloedd gwely ychwanegol, ynghyd ac uwchraddio'r, llety Craig-y-Dderwen, Betws-y-Coed.

[b] Addasu cytundeb Adran 106 i ganiatáu unedau presennol i ddefnydd o fewn dosbarth A1, Unedau 1-4 Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[c] Newid defnydd o siop i gaffi/bwyty, Uned 1, Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed. Nodwyd bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

[1.8] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddisbarthwyd) a wnaed ym mis Mehefin 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol – Nodwyd y ffigyrau [a ddisbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mehefin 2015.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol – Nodwyd nad oedd angen sylw i unrhyw fater yn yr adroddiad.

[1.9] Gŵyl Flodau Cyfeillion Eglwys Saint Mihangel

Cyfeiriodd y clerch at y trefniadau ar gyfer yr ŵyl flodau i'w chynnal ar yr 11eg -13eg Fedi 2015 Y clerch i drafod gyda'r Cyng Marion Bettenev ynglŷn â chyfraniad blynyddol y Cyngor tuag at yr arddangosfa.

[2] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Rhodddwyd sylw i gais oddiwrth Mrs Marian Owen am ganiatâd y Cyngor i osod goleuadau ychwanegol yn y neuadd. Y clerch i drefnu cyfarfod gyda Mrs Owen a pheiriannydd trydanol i drafod y cynigion. Cytunodd y Cadeirydd ynghyd a'r Cyng Jim Boughton fod yn bresennol.

[2.1] Cae Chwarae Pentre' Du

Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r bylchau yn y matiau diogelwch yn y cae.

[2.2] Siop Hawkshead

Mynegwyd pryder gan yr aelodau ynglŷn â'r bwrdd arddangos sydd wedi ei leoli yng nghanol y llwybr cerdded. Y clerch i gysylltu gyda rheolwr y siop i ofyn iddo ail leoli'r bwrdd er mwyn caniatáu trafndiaeth fwy diogel i gerddwyr.

[2.3] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth, Cyng Anne McCaffrey, Cyngor BS Conwy

[b] Gwasanaethau Cyhoeddus Ombwdsman Cymru, Adroddiad Blynyddol 2014/15

[c] Rhaglen Mentora Aelodau, Parc Cenedlaethol Cymru.

Cadeirydd_____